DATGANIAD AR FATERION CYLLIDOL (GRANTIAU)

Mae'r datganiad hwn yn ganlyniad i waith dadansoddi a chynllunio sydd wedi ei gymeradwyo gan yr Is-banel Cyllid a'r corff llywodraethu.

Mae niferoedd yr ysgol wedi codi yn flynyddol dros y 4 mlynedd diwethaf. Erbyn hyn mae yna 163 ar lyfrau yr ysgol, o gymharu ac oddeutu 130 ym Medi 2013. Golyga hyn ac amgylchiadau staffio unigol ein bod erbyn hyn gyda 4 dosbarth yn CA2. Er hyn, mae niferoedd y dosbarthiadau yn y Cyfnod Sylfaen yn fawr. Gobeithio gellir manteisio ar y cynnydd mewn niferoedd eleni wrth ystyied strwythr dosbarthiadau 2018-19.

Mae'r cynnydd mewn niferoedd dros y blynyddoedd diwethaf wedi ein cynorthwyo i wrthsefyll unrhyw doriadau.

Grantiau 2017-18

Bydd y grant hwn yn cyfuno'r holl grantiau canlynol oedd yn dod i awdurdodau ar wahân.

- Cyfnod Sylfaen
- Grant Effeithiolrwydd Ysgolion (GEY)
- Grant y Gymraeg mewn Addysg
- Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig
- Addysg Plant Sipsiwn a Phlant Teithwyr
- Sefydlu Athrawon Newydd Gymhwyso
- Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch
- Ysgolion Arweiniol a Datblygol
- Cefnogaeth i Brofion Darllen a Rhifedd

Mae disgwyliad i roi pwyslais ar y pedwar amcan strategol a amlinellir yn "Cymwys am Oes" a chefnogi blaenoriaethau LlC sef llythrennedd, rhifedd, datblygu Cynhwysedd Digidol disgyblion a thorri'r cyswllt rhwng anfantais a chyrhaeddiad addysgol. Bydd y grant yn weithredol am gyfnod o 3 blynedd.

Dyraniad yr ysgol hon ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf fydd **£55,036** Gweler cynllun gwariant isod.

Gwariant GGA 2017-18
Dyraniad - £55,036
Grant Datblygu Disgyblion - £19,100

Maes	Gwariant
Codi safonau Llythrennedd a Rhifedd	£3,434
Grant Datblygu Disgyblion	£10,400
Staffio Cyfnod Sylfaen	£46,074
Datblygu staff, addysgu a chymorth – ariannu hyfforddiant	£19,100